

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-799
Ein cyf/Our ref KW/05233/17

David J Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

SeneddPetitions@assembly.wales

02 Ionawr 2018

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr diweddar ynglŷn â deiseb mewn perthynas â dysgu Hanes Cymru o bersbectif Cymreig.

Mae gan Gymru ddiwylliant a threftadaeth gyfoethog ac mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hanfodol bod pob disgybl yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu am hanes ein gwlad. O'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, anogir athrawon ac ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru. Mae hyn yn eu helpu i werthfawrogi'r ieithoedd a'r agweddau diwylliannol gwahanol sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, yn ogystal â meithrin ymdeimlad o berthyn i Gymru a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, mae hanes Cymru yn rhan amlwg o raglen astudio hanes ac anogir ysgolion i ganolbwyntio ar gyd-destunau hanes lleol a hanes Cymru, gyda phwyslais ar fywydau bob dydd. Yn benodol, mae cyfleoedd yn ystod Cyfnod Allweddol 2 i ysgolion astudio Owain Glyndŵr ac Oes y Tywysogion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnoddau ar y llwyfan dysgu ar-lein cenedlaethol i ysgolion yng Nghymru, Hwb, sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i ysgolion ar y pwnc.

Mae'r cymhwyster Uwch Gyfrannol/Safon Uwch newydd, a gyflwynwyd i'w addysgu o fis Medi 2015, a'r cymhwyster TGAU newydd a gyflwynwyd fis Medi diwethaf, yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig. Mae Unedau 1 a 3 o'r cymhwyster TGAU newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at effeithiau newid hanesyddol ar Gymru neu ar bersbectif Cymreig. Bydd asesiadau Uned 1 yn cynnwys cwestiynau gorfodol yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o hanes Cymru. Mae'r asesiadau Uned 3 yn defnyddio thema wrth drafod datblygiad hanesyddol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio'r cyd-destun Cymreig yn eu hatebion i gwestiynau Uned 3 penodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar lefel y cymwysterau Uwch Gyfrannol/Safon Uwch, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr, lle y bo'n briodol, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd. Hefyd dylai dysgwyr gael mynediad i ddeunyddiau sylfaenol a dehongliadau hanesyddol sy'n adlewyrchu persbectif Cymreig lle y bo'n briodol.

Yn olaf, mae cwricwlwm newydd wrthi'n cael ei ddatblygu yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus. Bydd Hanes yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bydd y cwricwlwm newydd yn sicrhau bod dimensiwn Cymreig i bob agwedd ar ddysgu, ac mae'n cael ei gynllunio gyda phedwar prif ddiben wrth ei wraidd. Un o'r prif ddibenion yw y bydd pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd, gan sicrhau eu bod yn wybodus ynglŷn â diwylliant, cymuned, a hanes Cymru a lle hynny yn y byd ehangach.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education